


**PLANT A THEULUOEDD YN CYMRYD RHAN…**

Mae'r hyn mae plant a phobl ifanc yn ei feddwl, yn ei deimlo ac yn hoffi yn mynd i fod yn ganolog i'n gwaith cynllunio. Bydd ein gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar yn gweithio gyda meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac unrhyw un arall sy'n cefnogi eich plentyn, os yw hynny'n berthnasol.

**CYNLLUNIO SY'N CANOLBWYNTIO AR YR UNIGOLYN**

Mae Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (PCP) yn golygu rhoi eich plentyn wrth wraidd y broses er mwyn nodi ei anghenion a'r cymorth cywir.

**Beth yw cyfarfod neu adolygiad sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn**?

Mae'n gyfarfod anffurfiol gyda chi, eich plentyn ac unrhyw weithwyr proffesiynol sydd ynghlwm â'r mater. Mae'n ymwneud â:

- Gwrando ar lais eich plentyn a'i ddeall
- Cefnogi eich plentyn i feddwl am yr hyn sy'n bwysig ac o les iddo/iddi
- Helpu eich plentyn i feddwl am yr hyn sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio
- Gwneud yn siŵr bod eich plentyn yn cael y cymorth gorau

**Beth fydd yn cael ei drafod?**

- Pwy sy'n bresennol
- Beth rydym yn ei hoffi ac yn ei edmygu am eich plentyn
- Beth sy'n bwysig ac o les i'ch plentyn
- Beth sy'n gweithio'n dda neu ddim yn gweithio
- Unrhyw gwestiynau sydd gennych
- Cynllun gweithredu

**BETH NESAF?**

- Unwaith y cawn wybod ei bod yn bosib fod gan eich plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn rhoi gwybodaeth i chi am y broses.
- Byddwn yn casglu tystiolaeth gan weithwyr proffesiynol ac yn penderfynu a oes gan eich plentyn ADY.
- Os oes gan eich plentyn ADY, byddwn yn trefnu cyfarfod 'Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn' ac yna'n paratoi Cynllun Datblygu Unigol.
- Os nad oes gan eich plentyn ADY, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

**CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL**

Rhoddir Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar waith ar gyfer plant ag ADY ar ôl y cyfarfod 'Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn'. Mae'r CDU yn cynnwys disgrifiad o anghenion eich plentyn a'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol sy'n gorfod bod ar waith i gwrdd â'r anghenion hynny.

**BYDD Y CDU YN NODI:**

- Pa gymorth sydd ei angen ar eich plentyn i ddysgu a datblygu.
- Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod eich plentyn yn cael y cymorth angenrheidiol.
- Sut y bydd yn cael y cymorth sydd ei angen arno/arni.
- Sut y byddwn yn gwybod a yw'r cymorth wedi bod o help i'ch plentyn, yn ôl y bwriad.

Mae'r CDU yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei rhannu â phawb a fu'n helpu i'w pharatoi. Bydd yn cael ei hadolygu mor aml ag sydd angen ac o leiaf unwaith y flwyddyn.

**GWASANAETH CYMORTH CEREDIGION AR GYFER DISGYBLION ADY A THEULUOEDD**

Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r broses o ddatblygu Cynllun Datblygu Unigol, neu os oes angen rhagor o wybodaeth a chyngor arnoch, cysylltwch â Chydlynydd Cymorth Ceredigion ar gyfer Disgyblion ADY a Theuluoedd. Mae ar gael i drafod materion dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, neu i roi cymorth yn ystod cyfarfodydd.

**GWASANAETH BLYNYDDOEDD CYNNAR CEREDIGION**

Swyddog Arweiniol Ceredigion ar gyfer ADY Blynyddoedd Cynnar sy'n gyfrifol am gydlynu cyfrifoldeb yr awdurdod lleol dros blant o dan oedran ysgol gorfodol sydd ag ADY ac sydd ddim yn mynychu ysgol a gynhelir.
Bydd swyddog Blynyddoedd Cynnar Ceredigion yn gyfrifol am gydlynu:

- cyfarfodydd i benderfynu a oes gan blant ADY
- y gwaith o adolygu ac addasu Cynlluniau Datblygu Unigol
- y gwaith o adolygu trefniadau'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol
- trefniadau ar gyfer cymorth eiriolaeth annibynnol a datrys anghytundeb

**BETH SY'N DIGWYDD OS NAD WYF I'N CYTUNO?**

Lle bo modd, ymdrinnir ag anghytundebau cyn gynted â phosib a hynny gyda'r bobl allweddol dan sylw.

Gwasanaeth partner annibynnol yw **SNAP Cymru** sy'n gallu darparu'r gwasanaethau canlynol, am ddim:

- Llinell gymorth a chyngor;
- Gweithiwr Achosion arbenigol;
- Cyngor am wahaniaethu a gwaith achos cysylltiedig;
- Eiriolaeth arbenigol annibynnol;
- Datrys anghytundeb.

Gallwch gysylltu â nhw drwy ffonio 0808 801 0608 neu ymweld â'r wefan i gael rhagor o wybodaeth: www.snapcymru.org

**EICH HAWL I APELIO**

Mae Tribiwnlys Addysg Cymru yn gwrando ar apeliadau ynghylch anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc, ac yn gwneud penderfyniadau arnynt, yn ogystal ag am hawliadau'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion. Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol ac mae ei benderfyniadau yn rhai sy'n rhwymo awdurdodau lleol a chyrff cyfrifol i ddilyn ei orchmynion.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'w gwefan nhw - www.tribiwnlysaddysg.llyw.cymru/ - neu ffoniwch 0300 025 9800.

Os yw eich pryderon neu'r anghytundebau yn ymwneud â gwasanaeth iechyd, bydd yr Awdurdod Lleol a'r Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (DECLO) a benodir gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda yn cydweithio i geisio dod o hyd i ateb. Hefyd gallwch gysylltu â'r bwrdd iechyd yn uniongyrchol. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:
http://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/atebolircyhoedd/gweithioiwella

**BLE I GAEL RHAGOR O WYBODAETH AM ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YNG NGHEREDIGION**

Mae pob croeso ichi gysylltu â'n gwasanaeth Cymorth i Ddisgyblion a Theuluoedd neu'r gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar am ragor o wybodaeth drwy ffonio 01545 570881 neu drwy fynd i'n gwefan:
http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/ysgolion-ac-addysg/anghenion-dysgu-ychwanegol/